

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Llan-non, Ceredigion) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2022

The A487 Trunk Road (Llanon,
Ceredigion) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2022

Gwnaed 4 Ionawr 2022

Made 4 January 2022

Yn dod i rym 10 Ionawr 2022

Coming into force 10 January 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Lan-non, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Ionawr 2022.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Llanon, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 10 January 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 10 January 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Môr hyd at bwynt 5 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys yn Llan-non, Ceredigion.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Ionawr 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from a point 150 metres south of the centre-point of its junction with Heol y Môr to a point 5 metres south of the centre-point of its junction with Stryd yr Eglwys at Llanon, Ceredigion.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

4 January 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government